*This document is available in English* **Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **28 Ebrill 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Polisi a Chynllunio Corfforaethol** |
| Swyddog Cyswllt | **Mike Plant, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar waith is-grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Cafodd hwn ei sefydlu mewn ymateb i'r argymhelliad gan y cyfarfod ar 20 Ionawr 2025 i swyddogion barhau i ddyfeisio a phrofi datrysiadau amgen gyda chyrff cynrychioliadol, o fewn y gyllideb y cytunwyd arni, er mwyn mynd i'r afael â darpariaeth frys mewn lleoliadau gwledig.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Ers mis Ionawr 2025, bu pum cyfarfod o is-grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Mae'r Grŵp yn cynnwys swyddogion Undeb y Brigadau Tân a swyddogion o'r Tîm Trawsnewid. Mae'r grŵp wedi gweithio gyda'i gilydd i adfywio opsiwn gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ym mis Gorffennaf 2024 a oedd yn cynnig sut y gellid defnyddio swyddi yn wahanol pe bai'r hunanwydnwch yn y nifer presennol o swyddi ar bob gorsaf dân amser cyflawn yn fwy cadarn. Ailymwelodd yr is-grŵp â'r opsiwn hwn a gweithiodd i gynhyrchu Cytundeb ar y Cyd drafft.

3 Mae'r Cytundeb ar y Cyd yn nodi mesurau i wella'r hunanwydnwch o fewn y system ddyletswydd bresennol ar draws yr 8 gorsaf â chriw Amser Cyflawn/Criw Dydd. Bydd hyn yn caniatáu i swyddi eraill o fewn y nifer presennol o swyddi gael eu hymgorffori mewn cynlluniau peilot i ddarparu model mwy effeithiol ac effeithlon o ddarpariaeth frys ar draws Gogledd Cymru.

4 Cytunwyd ar egwyddorion y Cytundeb ar y Cyd sy'n cynnwys yr angen i gwblhau polisïau cysylltiedig a chwblhau asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Yn ogystal, mae swyddogion lleol Undeb y Brigadau Tân wedi cynghori ei bod yn angenrheidiol cael cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Cyffredinol Cenedlaethol.

5 Cynigir y bydd y Cytundeb ar y Cyd yn cael ei weithredu o 1 Medi 2025 fel cynllun peilot.

## ARGYMHELLION

**6** Argymhellir bod yr Aelodau'n:

- **i)** **Nodi bod swyddogion wedi parhau i weithio gyda chyrff cynrychioliadol mewn partneriaeth gymdeithasol i ddatblygu ffordd ymlaen gyda'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys;**
- **ii)** **nodi bod cynnydd wedi'i wneud wrth ddrafftio Cytundeb ar y Cyd a bod cytundeb arno mewn egwyddor gan Undeb y Brigadau Tân mewn cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi ar 4 Ebrill 2025;**
- **iii)** **gwerthfawrogi ymdrechion parhaus yr holl barfïon i ddatblygu datrysiad a chyflwyno cynllun peilot i ddangos hunangynhaliaeth y lefelau staffio yn y gorsafoedd tân amser cyflawn presennol; a**
- **iv)** **Chydnabod, drwy ddangos yr hunangynhaliaeth hon, fod lle i gyflwyno cynlluniau peilot i ddefnyddio swyddi o'r nifer presennol o swyddi sy'n weddill i ddarparu model darpariaeth frys mwy effeithlon ac effeithiol ar draws Gogledd Cymru.**

## CEFNDIR

7 Yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023, ymgynghorodd yr Awdurdod â'r cyhoedd ar dri opsiwn posibl ar gyfer darparu ei ymateb brys i gymunedau Gogledd Cymru yn y dyfodol. Gwnaed penderfyniad gan yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2023 i beidio â gweithredu unrhyw un o'r cynigion ar y pryd ond i barhau i weithio ar amrywiadau i'r cynigion. Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad, fodd bynnag, yn parhau i fod yn fyw.

8 Cyfarfu Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys 16 o gydweithwyr a oedd yn gweithio ar wahanol lefelau, gorsafoedd ac adrannau ledled GTAGC, gan gynnwys cynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân, ar 12 achlysur rhwng Chwefror a Thachwedd 2024, ac yn ystod y cyfnod hwnnw fe wnaethant drafod ac ymchwilio i sawl model ymateb brys.

9 Cafodd sawl opsiwn eu cwmpasu gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan gynnwys gwahanol fodelau ar gyfer cynnwys staff ar y rhestr ddyletswyddau mewn ffordd wahanol er mwyn rhyddhau'r swyddi sydd eu hangen i'w lleoli mewn lleoliadau ychwanegol er mwyn cefnogi darparu model darpariaeth frys mwy effeithlon ac effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys sut y gallai'r trefniadau rhestr ddyletswyddau presennol fod yn fwy hunanwydn. Felly, nid syniad newydd yw'r sail ar gyfer y Cytundeb ar y Cyd ond un y mae'r is-grŵp wedi ailymweld ag ef cyn i gynigion o'r ymgynghoriad cyhoeddus gael eu hailystyried.

10 Tynnodd cynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân yn ôl ar lafar o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar 11 Tachwedd 2024.

11 Ar 17 Rhagfyr 2024, cyfarfu'r Prif Swyddog Tân a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân ag arweinwyr y ffrydiau gwaith a Chadeirydd Undeb y Brigadau Tân i gadarnhau'r sefyllfa hon ac i ddiolch i bawb a gymerodd ran am eu gwaith caled a'u diwydrwydd.

12 Yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2025, ailddatganodd yr Awdurdod ei ymrwymiad i ddarparu model darpariaeth frys mwy effeithiol ac effeithlon ar draws Gogledd Cymru i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd yn ystod yr adolygiad o'r ddarpariaeth frys a oedd yn cydnabod heriau darparu darpariaeth frys mewn ardaloedd gwledig a sut roedd angen addasu'r defnydd o adnoddau heb unrhyw gynnydd i'r gyllideb.

**GWYBODAETH**

13 Dechreuodd Gweithgor a oedd yn cynnwys swyddogion Undeb y Brigadau Tân a swyddogion o'r Tîm Trawsnewid weithio ar gam nesaf prosiect yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys mewn cyfarfod ar 21 Ionawr 2025. Fe wnaethant gyfarfod bum gwaith hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025 i ddrafftio Cytundeb ar y Cyd. Roedd hwn yn nodi'r sail ar gyfer defnyddio adnoddau yn wahanol er mwyn caniatáu i gynlluniau peilot ddechrau a oedd yn cynnwys alinio amseroedd cychwyn shifftiau, shifftiau diwrnod hirach a phosibilrwydd i gynlluniau peilot eraill gael eu datblygu i leoli diffoddwyr tân mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth i ddarparu model mwy gwydn o ddarpariaeth frys.

14 Mae'r Cytundeb yn amlinellu sut y gellid gwella'r hunanwydnwch yn y systemau dyletswydd presennol mewn sawl ffordd, a'r man cychwyn yw alinio amseroedd cychwyn shifftiau i wneud y defnydd gorau o'r trefniadau gwydnwch presennol. Gellid gwireddu hyn yn y tymor byr trwy'r rhybudd safonol o 90 diwrnod; fodd bynnag, yn yr ysbryd o gydweithio, byddai hyn yn dechrau ar 1 Medi 2025, yn amodol ar rywfaint o waith pellach ar y cyd o amgylch polisïau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r rhestr ddyletswyddau a gwyliau. Byddai'r cynllun peilot 12 mis llawn cyntaf gydag 08:00 fel amser cychwyn ar gyfer shifft diwrnod 10 awr yna'n dechrau ar 1 Ionawr 2026. Byddai hyn yn cyd-fynd â dechrau'r flwyddyn wyliau a byddai'n rhedeg am 24 mis.

15 Mae'r Cytundeb ar y Cyd hefyd yn dangos meysydd eraill o newid megis darparu mwy o hyfforddiant ar ddiwrnodau dyletswydd i leihau faint o amser i ffwrdd yn lle amser a weithiwyd sy'n cronni, a chyfeiriadau at Bolisi Rhestr Ddyletswyddau wedi'i ddiweddaru sy'n anelu at roi mwy o gadernid i'r trefniadau gwyliau a llenwi lleoedd gwag ar shifftiau.

16 Cytunwyd ar y Cytundeb ar y Cyd mewn egwyddor gan swyddogion lleol Undeb y Brigadau Tân ar 4 Ebrill 2025, ond fe wnaethant gynghori bod yn rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan Aelod o Gyngor Gweithredol Cenedlaethol Undeb y Brigadau Tân.

17 Rhoddwyd diweddariadau yng nghyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi ar 19 Chwefror 2025 a 4 Ebrill 2025 er mwyn hysbysu cyrff cynrychioliadol eraill.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Rhaid i ganlyniadau'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys fodloni rhwymedigaethau'r Awdurdod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| Cyllideb | Rhaid i unrhyw ateb fod o fewn y gyllideb a gymeradwywyd. |
| Cyfreithiol | Dim |
| Staffio | Mae'r Gwasanaeth wedi parhau i weithio gyda staff a'u cyrff cynrychioliadol a bydd yn parhau i wneud hynny. Darperir diweddariadau rheolaidd yn y Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi a thrwy'r Crynodeb Wythnosol yn ogystal â thrwy ymweliadau â gorsafoedd gan swyddogion. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol / Y Gymraeg | Mae Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gwasanaeth wedi ymgysylltu â grwpiau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy gydol yr ymgynghoriad. Mae'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys o fewn y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol gydag adborth hefyd yn cael ei gasglu ar hyn. |
| Risgiau | Mae'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ceisio lleihau'r risgiau o beidio â gallu ymateb i argyfyngau yn effeithiol ac yn effeithlon yng nghymunedau Gogledd Cymru. |